**Cylch Gwaith Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

**1** Hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r awdurdod tân.

**2** Cynorthwyo aelodau'r awdurdod i gadw at gôd ymddygiad yr awdurdod.

**3** Rhoi gwybod i'r awdurdod am ddiwygiadau i'r côd ymddygiad.

**4** Monitro gweithrediad y côd ymddygiad y mae'r awdurdod wedi ei fabwysiadu.

**5** Hyfforddi aelodau'r awdurdod, a rhoi cyngor ynghylch materion, yn ymwneud ag ymddygiad yn gyffredinol.

**6** Lle bo'r ddeddf yn caniatáu hynny, trefnu caniatâd i siarad a/neu bleidleisio lle bo gan aelod fuddiant.

**7** Derbyn a gweithredu cyngor a ddaw gan y comisiynydd lleol a/neu argymhellion a ddaw gan unrhyw banel dyfarnu neu dribiwnlys achos.

**8** Lle bo'r ddeddf yn caniatáu hynny, derbyn adroddiadau a chwynion ynghylch aelodau, cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau priodol a gwneud argymhellion priodol i'r awdurdod.

**9** Goruchwylio'r drefn achwyn.

**10** Derbyn adroddiadau'r comisiynydd lleol ynghylch honiadau o gamweinyddu neu honiadau o dorri'r côd ymddygiad, a gwneud argymhellion priodol.

**11** Cyflawni'r cyfryw bwerau neu ddyletswyddau a roddir neu a orfodir ar bwyllgorau safonau o bryd i'w gilydd trwy ddeddfwriaeth.

**Pwerau a ddirprwyir i'r Pwyllgorau**

**12** Pwerau a ddirprwyir o ran unrhyw fater o fewn cylch gwaith y pwyllgor ac eithrio lle bo hyn yn golygu gwariant nad oes unrhyw gyllideb wedi ei gymeradwyo ar ei gyfer.